



Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
Canolbarth Cymru
Mid Wales
Regional Skills Partnership

Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru 2022 – 2025



Cynnwys	Tudalen
Rhagair	3
Crynodeb Gweithredol	4
Polisi Llywodraeth Cymru	7
Sectorau Allweddol	8
Dadansoddiad o Gyflogaeth a Sgiliau Sectorau	9
Logisteg	10
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	11
Twristiaeth a Hamdden	12
Gweithgynhyrchu Uwch	13
Amaeth	14
Bwyd a Diod (cynhyrchu a gwerthu)	15
Ynni	16
Cyflenwad Addysg Bellach	18
Ymgysylltu â Busnesau	20
Cynllun Gweithredu	23
Manylion Cyswllt	24

Rhagair

Dros y tair blynedd diwethaf, gwelwyd newid sylweddol yn y sgiliau sy'n ofynnol gan gyflogwyr er mwyn iddynt ysgogi eu busnesau yn y byd ar ôl y pandemig. Mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn sicrhau bod pobl yn gallu ennill y sgiliau y mae cyflogwyr am eu gweld drwy ein hysgolion, colegau, prifysgolion, prentisiaethau a dysgu sy'n seiliedig ar waith.

Mae Partneriaeth Sgiliau Canolbarth Cymru (PSRh) yn gallu hwyluso'r gwaith o gysoni'r system dysgu a sgiliau ag anghenion yr economi leol, busnesau ac anghenion ehangach cymdeithas. Mae'n chwarae rôl hanfodol wrth nodi anghenion, dadansoddi'r hyn sy'n ofynnol a symud y system yn ei blaen i fynd i'r afael â'r bylchau.

Rydym wedi ymrwymo i ysgogi twf economaidd yn y rhanbarth mewn partneriaeth, a sicrhau ffocws angenrheidiol ar anghenion a chyfleodd Canolbarth Cymru.

- **Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion, a'r Cynghorydd James Gibson-Watt, Arweinydd Cyngor Sir Powys**

Trwy ymgysylltu'n agos â busnesau, rhoi llais iddynt er mwyn dylanwadu ar flaenoriaethau ar gyfer y rhanbarth, mae'r Cynllun hwn yn trafod pwysigrwydd gwneud cysylltiadau cryf rhwng y system ddysgu leol a'r sgiliau sydd eu hangen ar draws y rhanbarth, fel ein bod yn creu'r amodau iawn ar gyfer gweithlu ffyniannus.

Rydym yn credu bod y Cynllun hwn yn nodi sectorau a sgiliau allweddol, yn cydnabod blaenoriaethau o ran cyflogaeth ar gyfer y rhanbarth, ac yn nodi'r mecanwaith i greu seilwaith sgiliau i'r rhanbarth ar gyfer y 3 blynedd nesaf ac ar ôl hynny.

- **Adrian Watkins, Cyn Gadeirydd y PSRh**



**Y Cynghorydd Bryan
Davies Arweinydd
Cyngor Sir Ceredigion**



**Cynghorydd James Gibson-Watt
Arweinydd
Cyngor Sir Powys**



**Adrian Watson
Cyn Gadeirydd
Partneriaeth Sgiliau
Rhanbarthol Canolbarth Cymru**

Crynodeb Gweithredol

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn un o bedair partneriaeth ranbarthol yng Nghymru sy'n gweithio i ysgogi buddsoddiad mewn sgiliau drwy ddatblygu ymatebion ar sail anghenion lleol a rhanbarthol. Mae'n gweithio ar draws siroedd Ceredigion a Phowys, gan roi ystyriaeth fanwl i flaenoriaethau Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru.

Mae'r PSRh yn bartneriaeth sy'n cael ei harwain gan fusnesau'n bennaf, ac mae'n gweithio gydag arweinwyr a rhanddeiliaid busnes ar draws y rhanbarth i ddeall y ddarpariaeth sgiliau ac anghenion y farchnad lafur, er mwyn ysgogi buddsoddiad sy'n bodloni gofynion cyflogwyr a'r gweithlu fel ei gilydd.

Ein gweledigaeth yw dod â chysondeb i'r sectorau cyhoeddus a phreifat i fynd i'r afael â'r materion cyflenwi a galw ar gyfer gweithlu ystwyth effeithiol, ac iddynt y lefel briodol o sgiliau, i ddenu buddsoddiad mewnol i Ganolbarth Cymru a gwella rhwydweithiau cyfathrebu rhwng sectorau i ddeall a nodi llwybrau dysgu a llwybrau gyrfaol i gyflogaeth briodol, dymor hir i ddinasyddion y Canolbarth.

Ein cenhadaeth

Mae Bwrdd y PSRh yn gweithredu fel grŵp rhanddeiliaid, gan ymgysylltu â sectorau, diwydiannau, a rhanbarthau:

- I nodi anghenion cyflogwyr a dysgwyr ar draws Canolbarth Cymru ac ymateb iddynt;
- I ymgysylltu â chyflogwyr, sectorau a rhanddeiliaid i nodi anghenion sgiliau presennol ac yn y dyfodol ar draws y rhanbarth a chynllunio yn unol â hynny;
- I sicrhau bod gweithgarwch yn cydweddu â'r galw yn y dyfodol ac ysgogi arloesedd drwy ddysgu a chyflogaeth;
- I alluogi ymateb rhanbarthol cynhwysol i bolisi a mentrau Llywodraeth Cymru;
- I sicrhau bod gweithgarwch yn cydweddu â gofynion sgiliau Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru.

Ein hamcanion

- Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i nodi gofynion sgiliau'r sector preifat yng Nghanolbarth Cymru;
- Sefydlu methodolegau i nodi cyfleoedd gwaith yn y dyfodol ar draws pob sector;
- Sefydlu grŵp strategol ar y cwricwlwm i gysoni llwybrau dysgu a llwybrau cynnydd i bob dysgwr o CA4 / 5 i raglenni dysgu sy'n seiliedig ar waith / Addysg Bellach / Addysg Uwch neu gynllun prentisiaethau rhanbarthol neu gynlluniau galwedigaethol. Cyflwyno cyrsiau gradd a meistr Addysg Uwch sy'n cydweddu ag agenda sgiliau'r dyfodol ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth yng Nghanolbarth Cymru;
- Sefydlu cynllun prentisiaethau rhanbarthol (gan gynnwys prentisiaethau ar y cyd) sy'n cysylltu'r sectorau cyhoeddus a phreifat ac yn eu cysoni, sy'n cydnabod bod modd trosglwyddo sgiliau;
- Cynhyrchu cyngor gyrfaol arloesol i bob dysgwr yng Nghanolbarth Cymru i gysylltu llwybrau dysgu â llwybrau gyrfaol;
- Datblygu'r cysyniad o 'Ganolfannau Rhagoriaeth' yng Nghanolbarth Cymru;
- Gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i sicrhau cyfleoedd am gefnogaeth gydol gyrfa ar gyfer uwchsgilio'r gweithlu presennol, gan gynnwys y rhai sydd mewn cyflogaeth fyrdymor;
- Bydd pob un o'r gweithredoedd yn cael eu hategu gan ffocws dwyieithog cryf, a fydd yn cyfrannu, drwy'r system addysg a'r gweithlu dwyieithog unigryw ar draws Canolbarth Cymru, at y weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.



Mae'r gwaith o ddatblygu'r cynllun cyflogaeth a sgiliau 3-blynedd wedi'i arwain gan y PSRh mewn cydweithrediad â busnesau, darparwyr hyfforddiant, addysg, Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru.

Mae aelodau Bwrdd y PSRh yn ystyried mai eu rôl yw bod yn rhan o bartneriaeth o'r sefydliadau sy'n aelodau, i gyfrannu at y gwaith o gynllunio sgiliau ac adrodd yn ôl i'w sefydliadau. Mae'r PSRh yn lledaenu adroddiadau polisi ac adnoddau perthnasol, ac yn comisiynu gwaith dadansoddi data i ddarparu gwybodaeth gyfoes am anghenion a chyfleoedd sgiliau i helpu i nodi blaenoriaethau sgiliau lleol.

Mae pob darparwr Addysg Bellach (AB) ac Addysg Uwch (AU) yn ymgysylltu'n weithredol â'r PSRh. Fe'u gwahoddir fel aelodau a gofynnir iddynt rannu gwybodaeth am sgiliau gyda'u rhwydweithiau. Mae pob un ohonynt yn aelodau o'r Grŵp Clwstwr i Ddarparwyr Hyfforddiant, sy'n is-grŵp o'r PSRh, sy'n cwrdd sawl gwaith y flwyddyn.

Mae daearyddiaeth eang rhanbarth Canolbarth Cymru yn gallu cyflwyno heriau wrth ymgysylltu â chyflogwyr prysur. I oresgyn hyn, mae'r PSRh yn cysylltu â busnesau trwy arolygon cyflogaeth a sgiliau rheolaidd, fforymau sefydledig fel y Ffederasiwn Busnesau Bach, Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru, LANTRA, rhwydweithiau eraill a newyddlen reolaidd Tyfu Canolbarth Cymru, sy'n cael ei dosbarthu'n electronig.

Ym mis Awst 2022, Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru oedd y prif ffocws cylchlythyr Tyfu Canolbarth Cymru, a defnyddiwyd hyn fel modd i helpu'r gwaith o recriwtio arweinydd busnes yn Gadeirydd newydd Bwrdd y PSRh, a hybu'r Arolwg Cyflogaeth a Sgiliau.



Cylchlythyr Tyfu Canolbarth Cymru

Awst 2022

Polisiau Llywodraeth Cymru



Mae gwaith Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru'n galluogi ymateb rhanbarthol cynhwysol i bolisiau a mentrau Llywodraeth Cymru. Rydym yn sicrhau bod gweithgarwch yn cydweddu â gofynion sgiliau Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, ac yn cydweithio'n strategol ar ran rhanddeiliaid ar draws y Canolbarth, gan gynnwys y ddau Awdurdod Lleol.

Wrth ddatblygu'r cynllun Cyflogaeth a Sgiliau, rydym yn parhau i fynd i'r afael â chwestiynau allweddol: pa sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr, nad yw ymgeiswyr na'u gweithluoedd presennol yn meddu arnynt yn aml, a sut olwg sydd ar y dyfodol, o ran anghenion sgiliau?

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru'n cael gweld y datblygiadau polisi a'r meysydd blaenoriaeth allweddol diweddaraf:

- [Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2021 - 2026](#)
- [Cymru gryfach, decach a gwyrddach: Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau \(2022\): Gwarant i Bobl Ifanc](#)
- [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015](#)
- [Cymru Sero Net – Cyllideb Garbon 2021-2025](#)
- [Y Cwricwlwm Cenedlaethol Newydd](#)
- [Cymraeg 2050](#)
- [Digidol 2030](#)
- [Cysoni'r model prentisiaethau ag anghenion economi Cymru](#)

Sectorau Allweddol

Mae'r PSRh yn pontio'r bwlch rhwng addysg ac adfywio yn y gobaith o greu economi gref a bywiog a ategir gan arloesedd, twf, a gweithlu galluog.

Gweithio gyda phartneriaid i archwilio cyfleoedd i 'ailsgilio', newid gyrfaedd, 'uwchsgilio' pobl yn eu cyflogaeth bresennol, meithrin dealltwriaeth o sgiliau at y dyfodol a nodi bylchau sgiliau gyda chyflogwyr a darparu cyfleoedd hyfforddiant fel dysgu sy'n seiliedig ar waith / prentisiaethau / graddau a chymwysterau eraill fel BTEC, NVQ a TGAU/Safon Uwch.

Cafwyd tystiolaeth sylfaenol drwy ymgysylltu helaeth â'r diwydiant. Mae llawer o'r dystiolaeth hon wedi'i chasglu drwy arolwg a ddosbarthwyd yn electronig i gronfa ddata a grwpiau rhwydwaith helaeth y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, sy'n cynrychioli'r sectorau canlynol:

- **Sgiliau a Chyflogaeth**
- **Ynni**
- **Trafnidiaeth a Logisteg**
- **Amaeth, Bwyd a Diod**
- **Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
- **Hamdden, Twristiaeth a Manwerthu**
- **Digidol**
- **Cefnogi Menter**

Ystyrir bod y sectorau hyn yn flaenoriaeth oherwydd bod pob un ohonynt yn chwarae rhan ganolog yn nhirwedd economaidd y rhanbarth. Mae eu presenoldeb o ran twf, eu capasiti o ran cyflogaeth a'u cyfraniad ariannol at yr economi, yn eu rhoi ar flaen y gad o ran ymdrechion y PSRh wrth gefnogi adferiad economaidd rhanbarth Canolbarth Cymru.

Dadansoddiad o Gyflogaeth a Sgiliau Sectorau



Comisiynwyd Lightcast (Emsi Burning Glass gynt) i gefnogi'r PSRh wrth iddi ddatblygu'r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 3-blynedd ar gyfer y rhanbarth.

I lywio'r broses o wneud penderfyniadau, mae'r adroddiad Dadansoddi Cyflogaeth a Sgiliau Sectorau yn dwyn ynghyd ddata o setiau data swyddogol a data perchnogol Lightcast ar hysbysebion swyddi i greu proffil o chwe sector o ddiddordeb i Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru, sef: Gweithgynhyrchu Uwch, Amaeth, Ynni, Iechyd a Gofal, Logisteg a Thwristiaeth a Hamdden.

Diffiniwyd pob un o'r sectorau hyn drwy grwpio nifer o ddiwydiannau pedwar digid perthnasol ynghyd fel y'u diffinnir gan Ddosbarthiad Diwydiant Safonol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG).

Ar gyfer pob un o'r sectorau, mae'r adroddiad yn edrych ar newidiadau mewn swyddi dros amser ac mae'n darparu rhagamcanion hyd at 2025, gan ddefnyddio model Lightcast, i roi syniad o gyfeiriad twf posibl pob sector ar sail tueddiadau'r gorffennol. Yna, trwy ddefnyddio matrices patrwm staffio Lightcast, mae'r adroddiad yn nodi'r 10 galwedigaeth bennaf (a ddiffinnir gan ddefnyddio Dosbarthiad Galwedigaeth Safonol SYG) sydd fwyaf perthnasol i bob sector ac yn cyflwyno gwybodaeth am weithgarwch recriwtio cyfredol ym mhob sector trwy edrych ar nifer yr hysbysebion swyddi dros amser, cyflogwyr allweddol sy'n recriwtio ar hyn o bryd a'r sgiliau maent yn gofyn amdanynt.

Mae'r holl ddadansoddiadau wedi'u cynnal yn naearyddiaeth Canolbarth Cymru – sy'n cynnwys awdurdodau lleol Powys a Cheredigion – ac mae'r canfyddiadau wedi'u meincnodi yn erbyn cyfartaledd Cymru a'r Deyrnas Unedig.

Logisteg

Mae'r sector logisteg yn cynnwys yr holl weithgareddau sy'n ymwneud â'r broses gyffredinol o reoli sut mae adnoddau'n cael eu caffael, eu storio a'u cludo i'w cyrchfan terfynol. Mae'n cynnwys gweithgareddau cludo nwyddau, gweithgareddau warws a storio, a gweithgareddau postio.

Canfyddiadau a Chasgliadau Allweddol

Mae'r sector logisteg yn cyfrif am 1,890 neu 2.2% o'r holl swyddi yn rhanbarth Canolbarth Cymru, sef cyfran lai o swyddi o gymharu â chyfartaledd Cymru a'r DU o 3 a 4%, yn y drefn honno. Yng Nghanolbarth Cymru, mae gweithgarwch yn y sector wedi'i ganoli'n arbennig ym Mhowys.

Rhagwelir y bydd y sector yn parhau i dyfu'n gyson hyd at 2025, gan dyfu 1.2% pellach dros y cyfnod o 3 blynedd.

Yn y sector, 'gyrwy'r cerbydau nwyddau mawr' yw'r alwedigaeth sy'n cyfrif am y nifer fwyaf o swyddi yn y rhanbarth, nesaf yw 'gweithwyr post, didolwyr post, negeswyr a chludwyr a 'galwedigaethau storio elfennol'. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd niferoedd y swyddi ym mhob un o'r galwedigaethau hyn yn gostwng yn y 3 blynedd nesaf.

O ran gweithgarwch recriwtio, gwelwyd cynnydd cyson yn y sector ers ail hanner 2021, pan ddechreuodd yr economi ddod allan o'r pandemig. Er iddo ostwng rywfaint yn y misoedd diweddar, mae'r galw yn parhau i fod ar lefel uchel a sefydlog, mewn cymhariaeth â'i ffigyrau cyfatebol cyn y pandemig.

Mae'r galw mawr gan gyflogwyr am 'yrwyr faniau a cherbydau nwyddau mawr eraill', yn ogystal â gweithwyr warws cyffredinol, yn adlewyrchu'r heriau ehangach o ran recriwtio yn y sector hwn. .

O ran y sgiliau y mae galw amdanynt yn y sector logisteg, 'cyfathrebu', 'gwasanaeth cwsmeriaid' a 'llwytho a dadlwytho' yw'r sgiliau cyffredin mwyaf dymunol, tra bod 'gweithio mewn warws', 'profiad wagen fforch godi', 'ansawdd gwasanaeth' a 'chodi a chario' yw'r sgiliau arbenigol mwyaf perthnasol.

Mae'r amledd isel o ran y galw am sgiliau digidol / meddalwedd penodol a'u natur gyffredinol yn awgrymu bod y rhain yn sgiliau llai hanfodol ar gyfer y sector logisteg.

Mae sgiliau digidol sy'n gysylltiedig â swyddi logisteg (megis 'Apple IOS', 'Microsoft Outlook') yn llai technegol na'r rhai sy'n ofynnol mewn galwedigaethau eraill, sy'n awgrymu efallai na fydd gwybodaeth uwch o sgiliau digidol yn hanfodol o reidrwydd ar gyfer hysbysebion swyddi cyfredol sy'n berthnasol i sector logisteg Canolbarth Cymru.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae'r sector 'Iechyd a Gofal Cymdeithasol' yn ymwneud â'r holl weithgareddau sy'n cynnwys darparu gwasanaethau meddygol, deintyddol a gofal preswyl i gleifion, gan gynnwys practis cyffredinol, gwasanaethau ysbytai a fferyllwyr cymwysedig.

Canfyddiadau a Chasgliadau Allweddol

Mae'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yn cyfrif am 9,330 neu 10.2% o'r holl swyddi yn rhanbarth Canolbarth Cymru, sef cyfran lai o swyddi o gymharu â chyfartaledd Cymru a'r DU o 15.2% a 14.3% , yn y drefn honno. Yng Nghanolbarth Cymru, mae gweithgarwch yn y sector wedi'i ganoli'n arbennig ym Mhowys, er ei fod yn cynrychioli cyfrannau cyffredinol y gweithlu ym mhob rhanbarth.

Mae nifer y swyddi yn y sector yn y rhanbarth wedi gostwng 25% since 2015 ers 2015, a rhagwelir gostyngiad o 4.2% dros y cyfnod o 3-blynedd, o'i gymharu â thueddiadau ehangach yn y DU.

O fewn y sector, yr alwedigaeth 'gweithwyr gofal a gofalwyr cartref' sy'n cyfrif am y nifer fwyaf o swyddi yn y rhanbarth, nesaf yw 'nyrsys' a 'nyrsys cynorthwyol a chynorthwywyr nyrsio'. O'r galwedigaethau hyn, rhagwelir mai ar gyfer 'nyrsys cynorthwyol a chynorthwywyr nyrsio' yn unig y bydd nifer y swyddi yn tyfu yn y 3 blynedd nesaf.

O ran gweithgarwch recriwtio, gwelwyd cynnydd cyson yn y galw yn y sector ers canol 2020. Er i'r galw ostwng rywfaint yn y misoedd diweddar, mae'n parhau i fod ar lefel uchel o'i gymharu â'i ffigyrau cyfatebol cyn y pandemig.

Mae'r galw mawr gan gyflogwyr am weithwyr gofal, yn ogystal â staff nyrsio, yn adlewyrchu'r galw cyson yn ehangach ar gyfer y sector hwn yn genedlaethol, a'r GIG yw'r prif gyflogwr yn yr ardal.

O ran sgiliau y gofynnir amdanynt yn y sector iechyd a gofal, 'cyfathrebu', y Gymraeg' ac 'addysgu' yw'r sgiliau cyffredin mwyaf dymunol, a 'nyrsio', gofal personol', 'bydwreigiaeth' ac 'iechyd meddyliol' yw'r sgiliau arbenigol mwyaf perthnasol.

Mae'r amledd isel o ran y galw am sgiliau digidol / meddalwedd penodol yn awgrymu bod y rhain yn sgiliau llai hanfodol ar gyfer y rhan fwyaf o'r swyddi a hysbysebir ar hyn o bryd mewn perthynas â'r sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r sgiliau digidol mwyaf poblogaidd y mae'r galw mwyaf amdanynt mewn swyddi iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnwys meddalwedd sylfaenol megis 'cymwysiadau Microsoft Office' ac 'eClinicalWorks (ECW)', sef meddalwedd cofnodion meddygol a rheoli practis electronig. O ystyried bod y rhain yn llai technegol a'u bod yn ymddangos yn llai aml na'r sgiliau sy'n ofynnol mewn galwedigaethau eraill, mae'n awgrymu nad yw gwybodaeth uwch o sgiliau digidol yn hanfodol o reidrwydd ar gyfer y rhan fwyaf o'r swyddi a hysbysebir ar hyn o bryd mewn perthynas â sector iechyd a gofal cymdeithasol Canolbarth Cymru.

Twristiaeth a Hamdden

Mae 'Twristiaeth a Hamdden' yn sector cynhwysfawr eang sy'n cynnwys yr holl weithgareddau sy'n ymwneud â lletygarwch, adloniant a'r economi ymwelwyr. Mae hyn yn cynnwys yr holl wasanaethau llety, gweithgareddau sy'n ymwneud â bwyd a diod, y celfyddydau perfformio a difyrion, a hefyd atyniadau diwylliannol, naturiol a chwaraeon.

Canfyddiadau a Chasgliadau Allweddol

Mae'r sector twristiaeth a hamdden yn cyfrif am 10,350, neu 11.8% o'r holl swyddi yn rhanbarth Canolbarth Cymru, sef cyfran fwy o'r swyddi o'i chymharu â chyfartaledd Cymru a'r DU o 9.8% ac 8.6% y cant, yn y drefn honno.

Yng Nghanolbarth Cymru, er bod y rhan fwyaf o'r swyddi wedi'u lleoli ym Mhowys, mae Ceredigion yn cyfrif am gyfran anghymesur, o ystyried maint cymharol pob rhanbarth o ran poblogaeth y gweithlu.

Mae'r sector wedi bod yn dirywio ers y pandemig, ac mae'r dirywiad hwn yn effeithio ar ragamcanion, sy'n dangos y rhagwelir y bydd y sector yn gostwng 2.3% pellach erbyn 2025.

Yn y sector, mae'r alwedigaeth 'staff bariâu' yn cyfrif am y nifer fwyaf o'r swyddi yn y rhanbarth; nesaf, ceir 'cyn-orthwyr cegin ac arlwy' a 'gweinyddion a gweinyddesau'.

O ran gweithgarwch recriwtio, gwelwyd cynnydd cyson yn y sector ers ail hanner 2021, pan ddechreuodd yr economi ddod allan o'r pandemig. Mae'r galw yn parhau i fod ar lefel uchel o'i gymharu â'i ffigyrau cyfatebol cyn y pandemig, a gallai'r tueddiad hwn effeithio ar lwybr twf y sector wrth symud ymlaen.

O ran sgiliau y gofynnir amdanynt yn y sector twristiaeth a hamdden, 'gofal cwsmeriaid', 'cyfathrebu', a 'glendid' yw'r sgiliau cyffredin mwyaf dymunol, a 'gweithredu bwyty', 'diogelwch a glanweithdra bwyd', 'coginio' a 'pharatoi bwyd' yw'r sgiliau arbenigol mwyaf perthnasol.

Mae'r amledd isel o ran y galw am sgiliau digidol / meddalwedd penodol yn awgrymu nad yw'r rhain yn sgiliau hanfodol ar gyfer y rhan fwyaf o'r swyddi a hysbysebir ar hyn o bryd mewn perthynas â'r sector twristiaeth a hamdden.

Y sgiliau digidol sy'n gysylltiedig â swyddi twristiaeth a hamdden yw meddalwedd sylfaenol yn bennaf, megis y cymwysiadau 'Microsoft Office' amrywiol. O ystyried bod y sgiliau hyn yn llai technegol ac yn fwy hollbresennol na'r sgiliau meddalwedd sy'n ofynnol mewn galwedigaethau eraill, mae'n awgrymu nad yw gwybodaeth uwch o sgiliau digidol yn hanfodol o reidrwydd ar gyfer y rhan fwyaf o'r swyddi a hysbysebir ar hyn o bryd mewn perthynas â sector twristiaeth a hamdden Canolbarth Cymru.

Gweithgynhyrchu Uwch

Mae 'Gweithgynhyrchu Uwch' yn cynnwys yr holl weithgareddau gweithgynhyrchu sy'n ymwneud â throsglwyddo gwyddoniaeth a thechnoleg yn arloesol a chyflym i gynhyrchion a phrosesau gweithgynhyrchu, megis gweithgynhyrchu cynhyrchion cemegol i fyny ac i lawr yr afon, technoleg fanwl gywir, technoleg gwaith metel, technoleg amddiffyn a thechnoleg cynhyrchu, ymhlith eraill.

Canfyddiadau a Chasgliadau Allweddol

Mae'r sector gweithgynhyrchu uwch yn cyfrif am 870 neu 1% o'r holl swyddi yn rhanbarth Canolbarth Cymru, sef cyfran lai o swyddi o'i chymharu â chyfartaledd Cymru a'r DU o 3.3 % a 2.3% yn y drefn honno. Yn y Canolbarth, mae Powys yn cyfrif am gyfran anghymesur o swyddi'r sector.

Rhagwelir y bydd y sector yn parhau i ddirywio'n raddol iawn hyd at 2025, gan ostwng 0.6% pellach dros y cyfnod o 3 blynedd.

Yn y sector amrywiol hwn, yr alwedigaeth 'cyd-osodwyr (cerbydau a nwyddau metel)' sy'n cyfrif am y nifer fwyaf o swyddi yn y rhanbarth; nesaf, ceir 'cyd-osodwyr (cynhyrchion trydanol ac electronig)' a 'gweithredwyr prosesau tecstilau'. O'r galwedigaethau hyn, rhagwelir mai 'cyd-osodwyr (cerbydau a nwyddau metel)' yn unig a fydd yn tyfu yn y 3 blynedd nesaf, er bod y niferoedd swyddi absoliwt yn fach ar gyfer pob un.

O ran gweithgarwch recriwtio yng Nghanolbarth Cymru, dim ond yn ddiweddar y mae'r sector wedi dychwelyd yn agos at ei lefelau cyn y pandemig, sy'n ychydig yn arafach nag mewn mannau eraill yn y DU. Mae galw arbennig o uchel gan gyflogwyr am 'dechnegwyr sicrhau ansawdd', 'peirianwyr rheoli ansawdd' a 'gwyddonwyr cemegol'.

O ran y sgiliau y mae galw amdanynt yn y sector gweithgynhyrchu uwch, 'cyfathrebu', bod â 'llygad craff am fanylion' a 'rheoli ansawdd' yw'r sgiliau cyffredin mwyaf dymunol, ac 'archwilio', 'arferion gweithgynhyrchu da', 'camau cywiro ac ataliol (CAPA)' a 'rheoli ansawdd' yw'r sgiliau arbenigol mwyaf perthnasol.

O ran sgiliau digidol / meddalwedd penodol, mae'r data'n awgrymu bod y rhain – yn enwedig sgiliau rhaglennu – yn ddefnyddiol ar gyfer nifer sylweddol o swyddi yn y sector gweithgynhyrchu uwch.

Y sgiliau digidol pennaf sy'n gysylltiedig â swyddi gweithgynhyrchu uwch yw 'Microsoft Office' a 'Microsoft Excel', ochr yn ochr ag ieithoedd rhaglennu amrywiol fel 'SQL', 'Python', 'Ajax' a 'MATLAB', yn ogystal â gwybodaeth o 'Ryngwynebau Rhaglennu Cymhwysol', a rhai rhaglenni meddalwedd sy'n benodol i'r diwydiant, megis 'ChemDraw'.

Amaeth

Mae'r sector 'Amaeth' yn cynnwys gweithgareddau sy'n ymwneud â chynhyrchu cynydau ac anifeiliaid yn bennaf, yn ogystal â gweithgareddau coedwigaeth.

Mae'r sector hwn hefyd yn cynnwys nifer o wasanaethau cymorth ategol i'r sector amaeth, megis gweithgareddau milfeddygol, gweithgynhyrchu bwydydd anifeiliaid parod a gweithgynhyrchu a chyfanwerthu peiriannau a chyflenwadau amaethyddol arbenigol.

Canfyddiadau a Chasgliadau Allweddol

Mae'r sector amaeth yn cyfrif am 14,500 neu 16.6% o'r holl swyddi yn rhanbarth Canolbarth Cymru, sef cyfran sylweddol uwch o swyddi o'i chymharu â chyfartaledd Cymru a'r DU, o 3.6 a 2% yn y drefn honno.

Yng Nghanolbarth Cymru, Powys sy'n cyfrif am y nifer fwyaf o swyddi yn y sector, er bod cyfrannau'n gynrychioliadol ar y cyfan o gyfrannau gweithlu cyffredinol ym mhob rhanbarth.

Yng Nghanolbarth Cymru, rhagwelir y bydd nifer y swyddi yn y sector yn aros yn sefydlog hyd at 2025, gan ostwng 0.3% yn unig dros y cyfnod o 3 blynedd.

Yn y sector, yr alwedigaeth 'ffermwyr' sy'n cyfrif am y nifer fwyaf o swyddi yn y rhanbarth; nesaf, ceir 'gweithwyr fferm' a 'rheolwyr a pherchnogion ym myd amaeth a garddwriaeth'. O'r galwedigaethau hyn, rhagwelir mai 'gweithwyr fferm' yn unig a fydd yn dirywio yn y 3 blynedd nesaf.

O ran gweithgarwch recriwtio, mae nifer yr hysbysebion recriwtio yn y sector yn gymharol isel o ystyried ei faint. Mae hyn oherwydd y ffordd y mae gweithgarwch recriwtio'n cael ei wneud yn y sector – gyda llai o hysbysebion swyddi yn cael eu postio ar-lein – yn hytrach nag adlewyrchu galw isel. Wedi dweud hynny, mae'r galw am swyddi yn y sector ar hyn o bryd yn llawer uwch na'r lefelau cyn y pandemig.

O ran y sgiliau y gofynnir amdanynt mewn galwedigaethau yn y sector amaeth, 'rheolaeth', 'cyfathrebu', a bod â llygad craff am fanylion yw'r sgiliau cyffredin mwyaf dymunol, ac 'ecoleg', 'therapi corfforol', 'ansawdd gwasanaeth' a 'gweithio mewn warws' yw'r sgiliau arbenigol mwyaf perthnasol.

O ran sgiliau digidol / meddalwedd penodol, ymddengys fod galw mawr am y feddalwedd gwybodaeth ddaearyddol (GIS) ar gyfer swyddi a hysbysebier mewn perthynas â'r sector.

Ymddengys fod y sgiliau digidol pennaf sydd o werth i alwedigaethau yn y sector amaeth yn gysylltiedig yn aml â phecynnau meddalwedd amrywiol sy'n ymwneud â 'meddalwedd gwybodaeth ddaearyddol' (GIS) – sef system gyfrifiadurol ar gyfer dal, storio, gwirio ac arddangos data sy'n ymwneud â safleoedd ar arwyneb y Ddaear – yn ogystal â chymwysiadau 'Microsoft Office.'

Bwyd a Diod

(eu cynhyrchu a'u gwerthu)

Mae 'Bwyd a Diod' yn sector eang sy'n cynnwys yr holl weithgareddau sy'n ymwneud â chynhyrchu bwyd a diod, yn ogystal â manwerthu a chyfanwerthu bwyd a diod. Mae hyn yn cynnwys gweithgynhyrchu a phrosesu gwahanol fwydydd, distyllu diodydd, a masnachu'r cynhyrchion hyn yn arbenigol, yn rhan o'i weithgareddau penodol.

Canfyddiadau a Chasgliadau Allweddol

Mae'r sector bwyd a diod yn cyfrif am 6.5% o'r holl swyddi yn rhanbarth Canolbarth Cymru, sef yr un gyfran o swyddi â chyfartaledd Cymru ac ychydig yn fwy na chyfartaledd cyffredinol y DU, sef 5.9%. Yn y Canolbarth, mae gweithgarwch yn y sector wedi'i ganoli'n arbennig ym Mhowys, er ei fod yn cynrychioli cyfrannau cyffredinol y gweithlu ym mhob rhanbarth.

Rhagwelir y bydd y sector bwyd a diod yn tyfu ychydig o dan 2% erbyn 2025.

Yn berthnasol i'r sector, yr alwedigaeth 'cynorthwywyr gwerthu a manwerthu' sy'n cyfrif am y nifer fwyaf o swyddi yn y rhanbarth; nesaf, ceir 'gweithredwyr prosesau bwyd, diod a thybaco' ac 'arianwyr manwerthu a gweithredwyr desgiau talu'.

O ran gweithgarwch recriwtio, gwelwyd cynnydd cyson yn y galw ers ail hanner 2021, pan ddechreuodd yr economi ddod allan o'r pandemig. Mae'r galw yn aros ar lefel uchel, o'i gymharu â'i ffigyrau cyfatebol cyn y pandemig, a gallai'r tueddiad hwn effeithio ar lwybr twf y sector wrth fynd ymlaen.

O ran y sgiliau y gofynnir amdanynt yn y sector bwyd a diod, 'gwasanaethau cwsmeriaid', 'gwerthu' a 'chyfathrebu' yw'r sgiliau cyffredin mwyaf dymunol, a 'gweithio mewn warws', 'marsiantio', 'Dangosyddion Perfformiad Allweddol' ac 'ymholiadau cwsmeriaid' yw'r sgiliau arbenigol mwyaf perthnasol.

Mae'r amlededd isel o ran y galw am sgiliau digidol / meddalwedd penodol yn awgrymu bod y rhain yn llai hanfodol ar gyfer y rhan fwyaf o'r swyddi a hysbysebir ar hyn o bryd mewn perthynas â'r sector bwyd a diod.

Pan fyddant yn ofynnol, y sgiliau digidol sy'n gysylltiedig â swyddi bwyd a diod yw meddalwedd sylfaenol yn bennaf, megis cymwysiadau gwahanol 'Microsoft Office', yn benodol 'Outlook' (e-bost) ac Apple iOS.

Mae'r sector 'Ynni' yn cynnwys yr holl weithgareddau sy'n ymwneud â chynhyrchu a chyflenwi ynni, gan gynnwys gweithgynhyrchu, cynhyrchu a dosbarthu technoleg/peiriannau perthnasol, gwasanaethau sy'n ymwneud â chyfleustodau a gwasanaethau adeiladu arbenigol.

Canfyddiadau a Chasgliadau Allweddol

Mae'r sector ynni yn cyfrif am 1,110 neu 1.3% o'r holl swyddi yn rhanbarth Canolbarth Cymru, sef cyfran lai o swyddi o'i chymharu â chyfartaledd Cymru a'r DU o 2.2 a 2.1% yn y drefn honno. Yn y Canolbarth, Powys sy'n cyfrif am y nifer fwyaf o swyddi yn y sector er bod cyfrannau'n gynrychioliadol ar y cyfan o gyfrannau gweithlu cyffredinol pob rhanbarth.

Yng Nghanolbarth Cymru, rhagwelir y bydd nifer y swyddi yn y sector yn dirywio hyd at 2025, gan ostwng 9.7% dros y cyfnod o 3 blynedd.

Yn y sector, yr alwedigaeth 'trydanwyr a gosodwyr trydanol' sy'n cyfrif am y nifer fwyaf o swyddi yn y rhanbarth; nesaf, ceir 'plymwyr a pheirianwyr gwresogi ac awyru' a 'masnachau trydanol ac electronig nad ydynt wedi'u dosbarthu mewn mannau eraill'. O'r galwedigaethau hyn, rhagwelir mai 'trydanwyr a gosodwyr trydanol' yn unig a fydd yn dirywio yn y 3 blynedd nesaf.

O ran gweithgarwch recriwtio, yn wahanol i sectorau eraill o'r economi, nid yw galw cyflogwyr am lafur mewn swyddi sy'n ymwneud ag ynni wedi mynd yn sylweddol uwch na'r lefelau cyn y pandemig. Mae Canolbarth Cymru hefyd yn wahanol o'i gymharu â'r DU ehangach, yn yr ystyr hwn.

O ran recriwtio galwedigaethol, mae galw arbennig o uchel gan gyflogwyr am 'drydanwyr a gosodwyr trydanol', yn gystal â 'phlymwyr a pheirianwyr gwresogi ac awyru'.

O ran y sgiliau y mae galw amdanynt o fewn galwedigaethau'r sector ynni, 'gwasanaeth cwsmeriaid', 'cyfathrebu' a 'rheolaeth' yw'r sgiliau cyffredin mwyaf dymunol, a 'pheirianeg drydanol', 'gwifro trydanol', 'peirianeg cynnal a chadw' a 'pheiriannau' yw'r sgiliau arbenigol mwyaf perthnasol.

O ran sgiliau digidol / meddalwedd penodol, mae'r data'n awgrymu bod y rhain – yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â rhaglennu a ffurfweddu cylchedau – yn ddefnyddiol i nifer o swyddi a hysbysebair mewn perthynas â'r sector ynni.

Y sgiliau digidol pennaf sy'n gysylltiedig â swyddi ynni yw gwybodaeth am 'Arae Gât Rhaglenadwy yn ôl Maes (FPGA)' – sef cylched integredig a ddyluniwyd i'w ffurfweddu ar ôl gweithgynhyrchu – 'rheolwyr rhesymeg rhaglenadwy' a 'systemau rheoli adeiladau' – system gyfrifiadurol sy'n rheoli ac yn monitro offer mecanyddol a thrydanol adeilad.

Mae'r rhan fwyaf o'r sgiliau hyn yn benodol i alwedigaeth, sy'n awgrymu y gallai gwybodaeth o'r mathau hyn o sgiliau digidol a rhaglennu fod yn werthfawr ar gyfer rhai swyddi yn sector ynni'r Canolbarth, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â galwedigaethau trydanol ac electronig, yn ogystal â rheoli / cynnal a chadw cyfleusterau.

Y gofynion sgiliau digidol pennaf ar draws sectorau yw sgiliau arbenigol yn fwy cyffredinol:

- Pecynnau Apple IOS a Microsoft,
- eClinicalWorks (ECW)
- Amrywiol ieithoedd rhaglennu megis 'SQL', 'Python', 'Ajax' a 'MATLAB', yn ogystal â gwybodaeth o 'Ryngwynebau Rhaglennu Cymhwysol' a rhai rhaglenni meddalwedd sy'n benodol i'r diwydiant, megis 'ChemDraw'.
- Meddalwedd gwybodaeth ddaearyddol' (GIS)
- Arae Gât Rhaglenadwy yn ôl Maes (FPGA)

Er mwyn cefnogi Llywodraeth Cymru yn eu targedau ar gyfer Prentisiaethau, Sero Net ac Ynni, bydd Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn cael eu harchwilio ymhellach i ddylanwadu ar y ddarpariaeth i fodloni gofynion busnesau yn awr ac ar gyfer gofynion sgiliau'r dyfodol. Mae hyn yn cynnwys datblygu Prentisiaethau newydd.



Y Cyflenwad Addysg Bellach

Mae'r data ar gyflawniadau addysg bellach wedi'u darparu gan Lywodraeth Cymru mewn maes pwnc sector 2 haen (SSA), ar gyfer y cyfnod 2020/21.

[1]

Mae'r cyflawniadau hyn yn ymwneud â domisil y dysgwr. Yn fwy penodol, mae'r ffigyrau'n ymwneud â nifer y bobl sy'n arfer byw yng Nghanolbarth Cymru a gwblhaodd gwrs AB yn 2020/21, ond nid o reidrwydd lle cwblhawyd y cwrs, nac ychwaith lle gallent fod yn cael eu cyflogi'n ddaearyddol erbyn hyn, ar ôl cwblhau eu cyrsiau priodol. Yn ogystal, mae'n werth tynnu sylw at y ffaith nad yw'r cyflawniadau hyn wedi'u pennu o ran gwerth cyfwerth ag amser llawn, ond, yn hytrach, eu bod yn cynnwys holl gyflawniadau dysgwyr, waeth beth fo'u hamser dysgu.

O safbwynt galw, nifer cyfartalog y swyddi gwag bob blwyddyn yw'r dangosydd mwyaf addas o anghenion y farchnad lafur leol, oherwydd ei bod yn ystyried nid yn unig newidiadau net yn nifer y swyddi dros amser, ond hefyd y trosiant llafur nodweddiadol o fewn y sector.

Yn 2021, enillodd 12,080 o ddysgwyr o Ganolbarth Cymru gymhwyster AB, sy'n cynrychioli tua 3.7% o gyfanswm y cyflawniadau a gwblhawyd yng Nghymru.

O ran cyfran holl gyflawniadau Cymru, mae'n cyfrif am 4.5%, sy'n dangos lefel uchel y ddarpariaeth ar gyfer y cyrsiau hyn ledled Cymru.

Mewn cyferbyniad, mae gan Ganolbarth Cymru gyfran uchel o gyflawniadau ym myd amaeth, gyda 9.4% o'r holl lwyddiannau sy'n ymwneud ag amaeth yng Nghymru i'w priodoli i drigolion y Canolbarth. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd economaidd galwedigaethau sy'n gysylltiedig â'r sector amaethyddol i ranbarth Canolbarth Cymru, 16.4%.

O ran y sector iechyd a gofal, mae'r data'n awgrymu y gallai fod gorgyflenwad rhanbarthol o ran darpariaeth AB ar gyfer Canolbarth Cymru a Chymru gyfan, o'i gymharu â swyddi gwag. Fodd bynnag, er y gallai hyn fod yn wir, yn ôl pob golwg, mae'n bosib hefyd, ar ôl cwblhau'r gwaith, fod dysgwyr wedi dewis gweithio y tu allan i'r rhanbarth, lle gallai fod mwy o gyfleoedd cyflogaeth yn y sector gofal iechyd.

[1] Ffynhonnell ddata: Llywodraeth Cymru - [Gweithgareddau dysgu mewn sefydliadau addysg bellach yn ôl sector, awdurdod unedol preswyl ac ardal pwnc \(llyw.cymru\)](#)

Fel arall, mae'n bosib bod dysgwyr wedi dewis gweithio'n rhan-amser (a thrwy hynny, llenwi swydd wag yn rhannol yn unig), neu ddod o hyd i waith mewn galwedigaeth wahanol nad yw'n ymwneud â gofal iechyd.

Mae hyn yn wir yn yr un modd am y sectorau gweithgynhyrchu uwch a thwristiaeth a hamdden, sydd hefyd yn dangos rhai arwyddion o orgyflenwad AB, ond i raddau llai. Gall cyflawniadau AB, mewn rhai achosion, orbwysleisio lefel y cyflenwad llafur, gan eu bod yn awgrymu bod pob dysgwr yn mynd ymlaen i weithio yn y sector hwnnw.

O ran amaeth, er ei fod yn cyfrif am gyfran anghymesur o'r holl gyflawniadau AB, mae'r data'n awgrymu y gallai'r cyflenwad AB fod yn is na'r galw am lafur ar gyfer y galwedigaethau sy'n gysylltiedig â'r sector hwn yng Nghanolbarth Cymru. Am bob cyflawniad AB gan ddysgwyr y yn y Canolbarth sy'n ymwneud ag amaeth, mae bron i ddwywaith yn fwy o swyddi gwag a ragwelir. Mae hon yn nodwedd sy'n unigryw i'r Canolbarth, ac yn y cyd-destun Cymreig ehangach, ymddengys fod y galw a'r cyflenwad yn y sector amaeth yn fwy cytbwys.

Mae tangyflenwad posib o ddarpariaeth i'w weld hefyd o ran y sector logisteg, sydd hefyd â chymhareb uchel iawn rhwng swyddi gwag a chyflawniadau AB.

Fodd bynnag, yn y ddau achos, mae'n werth cofio ei bod yn bosibl na fydd angen tystysgrifau coleg fel arfer ar gyfer llawer o'r galwedigaethau perthnasol sy'n gysylltiedig ag Amaeth a'r sector Logisteg er mwyn cael gwaith. Mae'n bosibl y bydd data cyflawniad AB yn tanamcangyfrif lefel bosibl y cyflenwad llafur ar gyfer y sectorau hyn.

Ymgysylltu â Busnesau


Ers 2019, bu newid sylweddol yn y sgiliau sy'n ofynnol gan ddiwydiannau i yrru eu busnesau ymlaen yn y byd ar ôl y pandemig. Mae'r cyfnod cythryblus dros y ddwy flynedd diwethaf wedi golygu bod llawer o sgiliau newydd wedi'u nodi fel gofyniad allweddol i fusnesau. Felly, mae'n bwysicach nag erioed bod pobl yn gallu ennill y sgiliau cywir drwy golegau, prifysgolion, a darparwyr dysgu sy'n seiliedig ar waith (prentisiaethau).

Cafodd yr arolwg, a gynhaliwyd rhwng 25 Gorffennaf 2022 a 9 Medi 2022, ei hysbysebu i fusnesau a rhanddeiliaid trwy sianeli cyfathrebu allanol gan gynnwys y wasg, e-bost, negeseuon cyfryngau cymdeithasol rheolaidd, fforymau busnes, aelodau Bwrdd y PSRh ac yn fewnol i staff.

Roedd 69 o ymatebwyr i'r arolwg, yr oedd un ohonynt drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gofynnodd tri chwestiwn cyntaf yr arolwg am enw, cwmni, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn.

Mae busnesau sy'n wynebu heriau sgiliau neu sy'n fwy ymwybodol o'u heriau sgiliau yn fwy tebygol o ymateb i arolygon a fydd yn cael eu defnyddio i lywio datrysiadau sgiliau.



Canfyddiadau Allweddol

- Mae 73% o'r holl ymatebwyr wedi'u lleoli yn ardal Powys y Canolbarth.
- Nododd 34% o'r ymatebwyr eu bod yn ficrofusnesau (llai na 10 o weithwyr), a nododd 35% eu bod yn fusnesau Canolig eu maint (50 – 249 o weithwyr) neu'n fusnesau Mawr (mwy na 250 o weithwyr).
- Y prif heriau y mae busnesau yn eu hwynebu yw recriwtio (72%), heriau ariannol (33%), cadw staff (24%), a chysylltiadau trafnidiaeth gwael (21%), a soniodd 17% o fusnesau am effaith Brexit.
- Pan ofynnwyd iddynt am Brexit, adroddodd 62% eu bod yn bwriadu recriwtio yn y 12 mis nesaf. Nododd 25% nad ydynt yn gwybod a fyddant yn recriwtio ai peidio.
- Mae cadw staff yn her i 42% o fusnesau. Adroddodd busnesau mai 'lleoliad daearyddol' a 'dim digon o bobl â diddordeb yn y math hwn o waith' (20%) oedd y prif resymau dros hyn. Yn ôl busnesau, roedd cyllid blyneddol hefyd yn rhwystr i gontractau cyflogaeth tymor-hir.
- Dywed 29% o fusnesau nad yw newydd-ddyfodiaid i'w gweithlu yn 'barod am waith'. Roedd y rhesymau am hyn yn cynnwys sgiliau coll fel y Gymraeg, sgiliau penodol y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt (41%), lefel ddymunol o brofiad gwaith (39%), agweddau gwael neu lefelau isel o gymhelliant (33%).
- Yn ôl pob sôn, mae 'galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cyswllt' yn profi'r lefelau uchaf o heriau sgiliau (35%), gyda 'galwedigaethau masnachau medrus' yn ail (20%), 'galwedigaethau proffesiynol, gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid', a 'galwedigaethau gweinyddol, ysgrifenyddol, elfennol' yn gydradd-drydydd gyda 14%. Mae 'eraill' yn cynnwys 'nyrsys /gweithwyr gofal cymdeithasol cymwysedig', 'lleoliadau gofal plant a chwarae', 'gyrwyr Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus' a galwedigaethau 'diwylliant, treftadaeth a lletygarwch'.

Canfyddiadau Allweddol

- Yr heriau sgiliau mwyaf cyffredin a adroddwyd gan fusnesau yw Cyfathrebu (28%), a datrys problemau (22%); nesaf oedd sgiliau TG Uwch neu arbenigol, Gwybodaeth o'r cynhyrchion a'r gwasanaethau a gynigir gan eich sefydliad, a sgiliau mewn technoleg newydd ar 20%.
- Ar gyfer Sero Net, dywedodd 12% o gyflogwyr eu bod yn cyflogi unigolion ar hyn o bryd y mae eu rôl yn cydweddu â'r agenda sero-net, neu eu bod yn bwriadu gwneud hynny. Mae'r rhain yn cynnwys ymgynghorwyr ynni, rheolwyr seilwaith, hyfforddwyr ac aseswyr, cydlynwyr ôl-osod a syrfewyr.
- Mae 48% o ymatebwyr yn nodi anhawster recriwtio.
- Dywedodd 37% o'r ymatebwyr fod rhwystrau i hyfforddi ymysg y gweithlu, a nodir diffyg cyllid ar gyfer yr hyfforddiant/mae hyfforddiant yn ddrud (23%) fel y rhwystr pennaf. Methu â sbario amser staff (16%) a diffyg darparwyr hyfforddiant lleol da a nodwyd gan 14% o'r ymatebwyr. Ategwyd hyn gan sylwadau eraill, gan gynnwys diffyg darpariaeth, diffyg hyfforddiant/cymwysterau priodol yn y meysydd pwnc angenrheidiol a chysiau nad ydynt yn ddigon hyblyg.
- Dywedodd 42% o ymatebwyr eu bod yn cyflogi prentisiaid ar hyn o bryd. O'r 58% o gyflogwyr nad ydynt yn cyflogi prentisiaid, y prif reswm a roddwyd oedd nad yw fframweithiau Prentisiaeth yn bodloni anghenion y busnes (19%). Roedd 'arall' yn cynnwys 'nid oes prentisiaethau ar gael yn lleol sy'n addas i'n diwydiant', 'ddim yn ymwneud â chynllunio AD', 'rydym mor brysur fel na allwn neilltuo'r amser i ddysgwyr / hyfforddiant yn fewnol', ac 'amhosib gwneud defnydd o bobl heb sgiliau technegol uwch'.
- Pan ofynnwyd 'ar ba lefel mae eich gweithlu angen y Gymraeg ac yn ei defnyddio yn y gwaith?', dywedodd 20% o'r ymatebwyr 'bob lefel, gan ddibynnu ar rôl y swydd', a dywedodd 57% nad oedd 'unrhyw ofyniad am y Gymraeg'. Dywedodd 11% o'r ymatebwyr eu bod yn cael trafferth recriwtio pobl gyda'r lefel gywir o Gymraeg.


Cynllun Gweithredu

Ym mis Tachwedd 2021, cyfarfu Cadeiryddion y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (PSRhau) a Rheolwyr Partneriaeth y pedair PSRh â Gweinidog yr Economi. Yn ystod y cyfarfod, gofynnodd y Gweinidog i'r PSRhau awgrymu dau neu dri maes/mater her neu gyfle sy'n arbennig o bwysig, yn eu tyb nhw, i Lywodraeth Cymru, y PSRhau, neu'r ddau, ganolbwyntio arnynt, ynghyd â nodi'r rhwystrau a'r atebion posibl. Mae'r rhain wedi'u hymgorffori yn y Cynllun Gweithredu Sgiliau newydd

- **Her 1** - Proses fwy ymatebol ar gyfer datblygu safonau a fframweithiau, gan gynnwys safonau'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol.
- **Her 2** - Heriau recriwtio a'r galw am brofiad gwaith.
- **Her 3** - Taith Cyrchfan i bobl ifanc. Cryfhau'r gofynion i SABau Canolbarth Cymru gynhyrchu data cyrchfan. (DS – Mae hyn yn cysylltu â Her 1 a 2 uchod)

Mae'r Cynllun Gweithredu llawn ar gael [ar-lein](#) fel pdf ychwanegol.





Manylion Cyswllt

Aggie Caesar-Homden

Rheolwr Partneriaethau - Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru

01597 826713

aggie.caesar-homden@powys.gov.uk